dti

ADOLYGIAD O ADEILADU CYNALIADWY 2006 – CRYNODEB

HYDREF 2006

Rhagair

Er 2000, pan gyhoeddwyd yr adroddiad blaenorol, bu datblygiadau polisi arwyddocaol yn gysylltiedig ag adeiladu, felly ystyriaf fod dau nod yn perthyn i'r adolygiad hwn. Y cyntaf yw llunio un ddogfen ffynhonnell a fydd yn dwyn ynghyd y prif elfennau ym mholisïau presennol y Llywodraeth ac unrhyw fentrau gan ddiwydiant sy'n ymwneud ag Adeiladu Cynaliadwy. Yn ail, annog diwydiant i ymateb yn gadarnhaol a chynnig ei dargedau ei hun - i ble y dylai diwydiant fynd a beth all diwydiant ei wneud. Bydd hyn wedyn yn sail effeithiol ar gyfer llywio polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol ble bônt yn berthnasol i adeiladu. Bydd fframwaith o'r fath yn canolbwyntio ar egwyddor Datblygu Cynaliadwy, y mae'r Llywodraeth gyfan wedi ymrwymo iddi.

Mae'r Adolygiad wedi cynnwys barn a chyfraniad llawer o fewn y diwydiant adeiladu a chyfranogwyr eraill, a diolchaf iddynt am eu cyfraniadau. Rhaid diolch yn arbennig i'r Fforwm Cynaladwyedd, dan gadeiryddiaeth Ian Coull, a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, yn enwedig ei Gomisiynydd Busnes, Dr Stewart Davies am eu rhan weithredol yn yr adolygiad. Dyma'r math o bartneriaeth yr oeddwn wedi gobeithio ei gweld.

Nid cyhoeddi'r Adolygiad fydd diwedd y mater. Cam cyntaf yw hwn tuag at ddatblygu targedau i ddiwydiant yn y dyfodol, y gellir eu cynnal gyda chymorth y Fforwm Cynaladwyedd. Rwy'n awyddus i'r targedau, o'u mireinio, gael eu hystyried yn rhai heriol a realistig; ac yn dargedau a fydd yn annog diwydiant i ymateb yn gadarnhaol i rai o'r materion mawr sy'n eu hwynebu. Byddant o gymorth i'r Llywodraeth hefyd o ran nodi sut y gall fynd ati'n well i gefnogi newid yn y diwydiant er mwyn cyflwyno adeiladu cynaliadwy. Wrth wneud hyn, bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda diwydiant i leihau'r angen am reoleiddio pellach trwy gymhwyso dulliau gwirfoddol, ble bo'n briodol.

Felly rwy'n gwahodd pob un cyfrannog i gymryd rhan yn natblygiad y targedau hyn. Gyda'n gilydd, gallwn symud tuag at well ffyrdd o gymhwyso egwyddorion Cynaladwyedd ym maes adeiladu.

Margaret Hodge

Y Gwir Anrhydeddus Margaret Hodge MBE AS

Gweinidog Gwladol:
Diwydiant a'r Rhanbarthau

Adolygiad o Adeiladu Cynaliadwy

Mae dyfodol ein planed yn dibynnu ar ein parodrwydd i weithredu nawr i sicrhau na fyddwn yn cyfaddawdu ansawdd bywyd i genedlaethau'r dyfodol wrth i ni adeiladu er mwyn gwella ansawdd bywyd heddiw.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) wedi ymrwymo i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Fel un o brif ddiwydiannau'r DU, sy'n gyfrifol am 8% o GDP ac sy'n cyflogi 1.5 miliwn o bobl, gall y diwydiant adeiladu ledio'r ffordd o ran integreiddio datblygu cynaliadwy yn rhan o'i holl weithgareddau.

Yn 2000, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Strategaeth ar gyfer Adeiladu Cynaliadwy: *Adeiladu Gwell Ansawdd Bywyd* a oedd yn cyflwyno ffordd ymlaen ar gyfer y Llywodraeth a diwydiant. Mae'r Adolygiad hwn yn edrych ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Y nod yw disgrifio'r gwaith sydd ar y gweill a mentrau a pholisïau'r Llywodraeth sy'n berthnasol i adeiladu cynaliadwy, er mwyn gwneud pobl yn fwy ymwybodol o gynaladwyedd yng nghyd-destun adeiladu. Y mae hefyd yn ceisio darparu sail effeithiol er mwyn llywio polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol a sefydlu cyfeiriad y diwydiant adeiladu yn y dyfodol.

Mae Adeiladu Cynaliadwy yn adeiladu ar egwyddorion y Llywodraeth ar gyfer datblygu cynaliadwy. Amlinellir y rhain yn *Strategaeth y DU ar gyfer Datblygu Cynaliadwy* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005, (www.sustainabledevelopment.gov.uk/publication/ukstrategy/index.htm).

Mae'r strategaeth yn nodi pedair blaenoriaeth a rennir ar draws y DU sydd ag adleisiau cryf o fewn agenda adeiladu cynaliadwy. Sef: Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy; Newid Hinsawdd ac Ynni; Diogelu Adnoddau Naturiol a Gwella'r Amgylchedd; a Chymunedau Cynaliadwy.

Byw O Fewn Terfynau Amgylcheddol

Parchu terfynau adnoddau a bioamrywiaeth amgylchedd y blaned a sicrhau na fydd amharu ar yr adnoddau naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd ac y bydd hynny'n parhau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sicrhau Cymdeithas Gryf, Iach a Chyfiawn

Bodloni anghenion amrywiol yr holl bobl yng nghymunedau heddiw a rhai'r dyfodol, hybu lles personol, cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal i bawb.

Sicrhau Economi Cynaliadwy

Adeiladu economi cryf, sefydlog a chynaliadwy sy'n rhoi ffyniant a chyfleoedd i bawb a ble mae'r costau amgylcheddol a chymdeithasol yn gyfrifoldeb i'r rhai sy'n eu hachosi (y sawl sy'n llygru sy'n talu) gyda chymhelliion ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Hyrwyddo Llywodraethu Da

Mynd ati'n weithredol i hybu systemau llywodraethu cyfranogol effeithiol ar bob lefel mewn cymdeithas – ymgysylltu â chreadigrwydd, egni ac amrywiaeth pobl.

Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol

Sicrhau bod polisïau'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, gan roi ystyriaeth i ansicrwydd gwyddonol (trwy'r egwyddor ragofalus) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd y cyhoedd.

Ffigur 1 Y pum egwyddor sy'n llywio datblygu cynaliadwy

Cynnydd er 2000

Bu llawer o gynnydd ers y strategaeth wreiddiol, *Adeiladu Gwell Ansawdd Bywyd,* gan gynnwys:

- Rhaglen y DU ar Newid yn yr Hinsawdd;
- Ardoll Agregau a Threth Tirlenwi;
- Ffurfio Cynghorau Sgiliau Sector: *Construction Skills, Asset Skills* a *Summit Skills;*
- Iechyd a Diogelwch: cyfraddau niweidiau angheuol o bwys a niweidiau dros dridiau ar gyfer 2003/04 oedd yr isaf er dechrau cadw cofnodion cyfredol;
- Lansio Parch at Bobl, Côd Ymarfer Iechyd a Diogelwch Da yn y Gwaith – mae 350 sefydliad wedi cofrestru hyd yn hyn;
- Ffurfio Adeiladu Arbenigrwydd;
- Papur Gwyn ar Ynni 2003;
- Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni 2004;
- Diwygio Rhan L y Rheoliadau Adeiladu;
- Côd ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy;
- Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar Safleoedd 2004;
- Datblygiadau Polisi Cynllunio;
- Deddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel;
- Dylunio ar gyfer Gweithgynhyrchu.

Fe geir manylion llawnach am y rhain a mentrau eraill ym mhrif gorff yr Adolygiad. Mae rhestr gynhwysfawr i'w chael ar y wefan:

www.dti.gov.uk/sectors/construction/sustainability/strategy/page13543.html

Y Dyfodol

Trwy'r Adolygiad hwn fe'n galluogwyd i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n seiliedig ar waith dechreuol gan y Fforwm Cynaladwyedd a chafodd ei lunio yn ngoleuni ymatebion i'n hymgynghoriad a chan y gweithdy i Randdeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o broses yr Adolygiad hwn. Mae barn gychwynnol diwydiant ar y targedau, a gasglwyd yn ystod cam ymgynghoriad cyhoeddus yr adolygiad, i'w chael ar wefan y DTI: www.dti.gov.uk/sectors/construction/sustainability/strategy/page13543.html

Mae'r weledigaeth hon yn amlygu materion allweddol ar draws sbectrwm cynaladwyedd, ac mae'n herio diwydiant gydag amcanion penodol. Rhestrir y rhain dros y dudalen, ynghyd â thargedau presennol perthnasol y llywodraeth.

Tabl: Targedau a Gweledigaeth ar gyfer Adeiladu Cynaliadwy hyd at 2015 a Thu Hwnt

Mater	Targedau'r Llywodraeth	Metrig	Gweledigaeth y diwydiant	Gweledigaeth y diwydiant o ran dyddiad cynnydd interim	Dyddiad cyflawni'n derfynol	Prif gyfrifoldeb	Dull	Cyfrifoldeb eilaidd
Newid hinsawdd/ ynni	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod yn CSH lefel 3 Allyriannau CO_2 20% islaw lefelau 1990 erbyn 2010. Lefel 1990 yn 165mt (tunnell fetrig) felly y targed yw 132mt.	Allyriannau CO_2 /m^2/y flwyddyn, yn cael eu rhagfynegi a'u mesur	Dim allyriannau CO_2 o adeiladau (mewn m^2/y flwyddyn) (Cefnogaeth EA)	20% o adeiladau newydd erbyn 2010; rhai presennol erbyn 2015	100% o adeiladau newydd erbyn 2020: rhai presennol erbyn 2030	DCLG (tai â nawdd cyhoeddus); DEFRA (newid hinsawdd yn gyffredinol); cynllunwyr; dylunwyr	Rheolau adeiladu; cynllunio; trethu; cymhellion; gorfodi; CSR; ymwybyddiaeth	Datblygwyr; cleientiaid; dylunwyr; contractwyr
Gwastraff	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod yn CSH lefel 3 Cyfanswm deilliannau gwastraff yn 2001: 93mt ac o hwn 40mt yn cael ei ailgylchu; y targed yw ailgylchu mwy hyd at 100% mewn hinsawdd economaidd dichonadwy.	Tunelli i dirlenwi. Dangosydd fframwaith UKSD (pob diwydiant) 1998/99 100mt i dirlenwi. 2002/03 96mt i dirlenwi.	Dim gwastraff (Cefnogaeth EA)	2006; adolygiad blynyddol	2020	Llywodraeth; datblygwyr; dylunwyr; cleientiaid: gwneuthurwyr; WRAP (Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau)	Deddfwriaeth; rheoliadau; gorfodi; protocol dymchwel; trethi; cymhellion; CSR; ymwybyddiaeth	Awdurdodau lleol; contractwyr
Deunyddiau	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod yn CSH lefel 3	Defnyddio deunyddiau cyfradd 'A' /% gostyngiad/datganiad LCA ar gyfer cynhyrchion.	Defnyddio deunyddiau cynaliadwy/ llai o ddefnyddio deunyddiau cynradd. Defnyddio mwy o ddeunyddiau wedi'u hadfer.	50% o ostyngiad erbyn 2015; adolygiad blynyddol Ar hyn o bryd 13mt o ddeunyddiau sy'n cael eu danfon bob blwyddyn i safloeoedd ddim yn cael eu defnyddio	90% erbyn 2025	DCLG; gwneuthurwyr; datblygwyr; contractwyr	Rheoliadau; codau; canllaw gwyrdd; monitro cadwyn gyflenwi	Awdurdodau lleol; cynllunwyr; cwmnïau; penwyr
Costau	Trysorlys eisoes yn diffinio gwerth am arian fel y cyfnuniad optimwm o gost bywyd-cyfan ac ansawdd i fodloni anghenion y cwsmer	% defnydd (dethol adeiladu o'r newydd ar sail WLC); Mynegai Chwyddiant Adeiladu	Newid yn nhrefn costau oes gyfan asedau (cyhoeddus)	2010	2020	OGC; sefydliadau dinas a chyllidwyr; cleientiaid	Newid polisi – patrwm cyllido cyhoeddus newydd / gwirfoddol (mecanwaith y farchnad)	Rhai sy'n bidio am PFI; dylunwyr; cyflenwyr

Mater	Targedau'r Llywodraeth	Metrig	Gweledigaeth y diwydiant	Gweledigaeth y diwydiant o ran dyddiad cynnydd interim	Dyddiad cyflawni'n derfynol	Prif gyfrifoldeb	Dull	Cyfrifoldeb eilaidd
Dŵr	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod yn CSH lefel 3	Litr/person/diwrnod 1992 – 140 l p/d 2003 – 154 l p/d	Defnyddio llai (yn enwedig dŵr yfed) Rhoi'r gorau i ddefnyddio ffitiadau llif uchel fesul cam	+25% gostyngiad erbyn 2010 yn y defnydd (120 ltrp/d) Erbyn 2015	50% gostyngiad erbyn 2015 Erbyn 2020	DCLG; OFWAT; awdurdodau lleol; cynllunwyr	Rheoliadau adeiladu; cynllunio; gorfodi; bilio, mesuryddion; masnachu dŵr; ymwybyddiaeth.	Datblygwyr; cwmnïau; galw cyhoeddus
Perygl llifogydd	Cyfraddau uchaf dŵr ffo a chyfeintiau blynyddol dŵr ffo yn ddim gwaeth na'r amodau presennol ar gyfer y safle	Dŵr ffo fel canran o ddŵr ffo'r safle cyn datblygu	Lleihau'r dŵr ffo i gyfradd dŵr ffo cae glas neu well. Gweithredu i gasglu dŵr glaw	Cadw dŵr ffo fel y lefel bresennol erbyn 2006	Dŵr ffo yn yr holl safleoedd ar lefel cae glas neu well erbyn 2015 Defnydd cyffredinol ar gasglu dŵr glaw.	DCLG; OFWAT; awdurdodau lleol; cynllunwyr	Rheoliadau adeiladu; cynllunio; gorfodi; bilio ar gyfer traenio	Datblygwyr; cwmnïau; galw cyhoeddus
Ansawdd Dŵr	Dŵr wyneb yn cael ei reoli ar safleoedd gydag ymdriniaeth SUDS o ran traenio	Arllwys dŵr wyneb o'r safle ddim yn cael effaith andwyol ar ansawdd dŵr	Bodloni amcanion ansawdd priodol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.	2010	Traenio pob safle gan ddefnyddio dull SUDS erbyn 2015	DCLG; OFWAT; awdurdodau lleol; cynllunwyr	Rheoliadau adeiladu; cynllunio; gorfodi; bilio ar gyfer traenio	Datblygwyr; cwmnïau; galw cyhoeddus
Ansawdd; estheteg	DCMS yn y broses o ailfywiogi rôl weinidogol Cefnogwr Dylunio a fydd yn hyrwyddo dylunio o ansawdd ledled y Llywodraeth Holl dai a ariennir yn gyhoeddus i fod yn CSH lefel 3	Adeiladau enghreifftiol wedi'u darparu gan CABE/ DQI Gwerthusiad o bob adeilad cyhoeddus bob 5 mlynedd ar ôl dechrau eu defnyddio (i'w ystyried)	Safonau ansawdd ac estheteg c.f. Sweden/ adeiladau â mynediad i'r cyhoedd	Targed Fforwm Strategol ar Adeiladu: erbyn diwedd 2007, 60% o'r holl brosiectau sy'n derbyn arian cyhoeddus/ prosiectau PFI (£1m+) i ddefnyddio DQIs a 20% o'r prosiectau hynny sydd >£1m o ran gwerth	2008/ 2010	DCLG; CABE; sefydliadau proffesiynol; BRE; clybiau rhanbarthol Cefnogwr Dylunio	Mesur yn erbyn enghreifftiau; mwy o ddeddfwriaeth	Sefydliadau cyllido; datblygwyr Diwydiant adeiladu

Mater	Targedau'r Llywodraeth	Metrig	Gweledigaeth y diwydiant	Gweledigaeth y diwydiant o ran dyddiad cynnydd interim	Dyddiad cyflawni'n derfynol	Prif gyfrifoldeb	Dull	Cyfrifoldeb eilaidd
Sgiliau	Datblygu Cynghorau Sgiliau Sector sy'n cael eu gwerthfawrogi, gyda ffocws priodol, ac sydd â strategaethau dichonadwy a weithredir yn effeithiol, ac sy'n cyfrannu at wella perfformiad busnes yn y diwydiant	Meithrin gallu; diffyg o ran niferoedd â sgiliau; % a hyfforddir bob blwyddyn; mesur ar gyfer ansawdd bywyd Nifer y swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau mewn adeiladu 2004 = 13,650. % oherwydd prinder sgiliau yn 2004 = 43%. (Ffynhonnell: KPI Parch at Bobl 2005)	Dim prinder sgiliau (crefftau a phroffesiynau; gweithlu presennol a hyfforddeion)	25% o'r gweithlu presennol wedi derbyn hyfforddiant; a 100% o hyfforddeion newydd	Adolygiad blynyddol	Llywodraeth; Sgiliau Adeiladu CITB; *Summit-skills;* sefydliadau proffesiynol	Consgripsiwn; cyrsiau gorfodol; CSR; ymwybyddiaeth; rhaid cael SKILLCARD i gael mynediad i safleoedd	Sefydliadau hyfforddi; cleientiaid; dylunwyr; contractwyr; CPD
Diogelwch	Roedd datganiad strategaeth Adfywio Iechyd a Diogelwch, (Mehefin 2000), yn gosod targedau cenedlaethol ar gyfer gwella perfformiad iechyd a diogelwch erbyn 2010: • i leihau cyfraddau *marwolaethau a niweidiau difrifol* yn ôl 10%; • i leihau cyfraddau achosion o *afiechyd yn gysylltiedig â gwaith* yn ôl 20%; • i leihau nifer y dyddiau gwaith a gollir gan bob gweithiwr oherwydd *niwed yn gysylltiedig â gwaith ac afiechyd* yn ôl 30%; ac i sicrhau *hanner* y gwelliant dan bob targed erbyn 2004.	Cyfradd amlder damweiniau	Dim RIDOR (damweiniau a hysbysir)	2006; adolygiad blynyddol	2020	Cleientiaid unigol; HSE	Prosesu gweithredoedd; hyfforddiant Dulliau ffurfiol: codau a safonau Dulliau anffurfiol: canllawiau arferion gorau	Dylunwyr; contractwyr

Mater	Targedau'r Llywodraeth	Metrig	Gweledigaeth y diwydiant	Gweledigaeth y diwydiant o ran dyddiad cynnydd interim	Dyddiad cyflawni'n derfynol	Prif gyfrifoldeb	Dull	Cyfrifoldeb eilaidd
Rheoli Cyfleus-todau	Holl ystadau'r Llywodraeth i ysgrifennu'r gofyniad yn eu contract	Llyfr log yn sicrhau y cesglir gwybodaeth am ddylunio a chynhyrchu	Contractwr i ddarparu llyfr log ar gyfer gweithrediad effeithiol yr adeilad	Holl gaffael y Llywodraeth ac 20% o adeiladu masnachol newydd erbyn 2010	2020	OGC; Sefydliadau'r ddinas a chyllidwyr; cleientiaid	Côd Ymarfer gwirfoddol	Dylunwyr; contractwyr
Tegwch/ Parch at Bobl	Parch at Bobl yn cael ei fabwysiadu gan y diwydiant fel gwerth busnes creiddiol	Nifer yr ymrwymiadau; Asesiad DQI Ar hyn o bryd 15% o weithwyr uniongyrchol y diwydiant adeiladu yn dod dan gydnabyddiaeth IiP (Ffynhonnell: KPI Parch at Bobl 2005).	Ymrwymiadau Masnach deg a Pharch at Bobl	--	2010	Llywodraeth i arwain; CABE; H&S	Prosesau cyfranogol: DQI	DCLG; cynllunwyr; pwysau o du cymheiriaid

Yn fwyaf arbennig, yn dilyn y cais llwyddiannus, bydd Gemau Olympaidd 2012 yn rhoi Llundain a'r DU ar flaen llwyfan y byd. Wrth fynd ati i adeiladau seilwaith a chyfleusterau'r Gemau Olympaidd, a sicrhau eu hetifeddiaeth yn y tymor hir, mae cyfle unigryw i godi proffil a chryfhau'r achos dros ddatblygu cynaliadwy yn y diwydiant adeiladu. Yn dilyn y Gemau fe fydd etifeddiaeth amgylcheddol, materol ac economaidd barhaol, gyda Lower Lee Valley wedi ei hadfywio'n gynaliadwy. Dylai'r diwydiant groesawu'r cyfleoedd yn sgil rhaglen ddatblygu y Gemau Olympaidd, â'i phroffil uchel, i arddangos rhagoriaeth ym maes adeiladu a sicrhau bod arferion gorau o ran datblygu cynaliadwy yn cael eu deall yn well a'u mabwysiadu'n eang ledled cenhedloedd a rhanbarthau'r DU. Erys llawer i'w wneud trwy'r Fforwm Cynaladwyedd a'i weithgorau, ar y cyd â'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, y Llywodraeth a diwydiant er mwyn datblygu camau ymarferol a fydd yn sicrhau bod cynaladwyedd yn cyrraedd y brif ffrwd yn briodol drwy'r diwydiant adeiladu yn ei gyfanrwydd.

Ystyrir y targedau pellweledol yn gam cyntaf, yn dilyn ymgynghoriad yr Adolygiad, o ran gosod targedau heriol a realistig y gall diwydiant eu cefnogi. Bydd gwaith pellach yn digwydd, gan gynnwys nodi prosesau ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd, mewn cyfres o weithdai yn dilyn yr adolygiad. Bydd manylion y gweithdai hyn yn ymddangos ar y wefan www.dti.gov.uk/sectors/construction/sustainability/strategy/page13543.html

Unwaith y bydd y targedau wedi'u mireinio, gellir eu defnyddio i annog diwydiant i ymateb yn gadarnhaol i rai o'r materion mawr sy'n eu hwynebu. Bydd y targedau'n helpu'r Llywodraeth hefyd wrth iddi nodi gwell ffyrdd o gefnogi newid yn y diwydiant er mwyn cyflwyno adeiladu cynaliadwy. Wrth wneud hyn, bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda diwydiant i ddileu'r angen am reoleiddio pellach trwy ddefnyddio dulliau gwirfoddol, ble bo hynny'n briodol.

Yr Adolygiad hwn yw'r cam cyntaf tuag at ffurfio fframwaith effeithiol – un a fydd yr llywio'r sector tuag at well defnydd o Adeiladu Cynaliadwy. Rydym yn disgwyl cyhoeddi dogfen arall ar ôl cwblhau'r broses hon yn 2007.

ATODIAD

Prif Gyfranwyr yr Adolygiad hwn

Berkeley Group

British Cement Association (BCA)

British Electro-technical and Allied Manufacturers Association (BEAMA)

British Institute of Facilities Management (BIFM)

British Plastics Federation (BPF)

British Pre-cast Concrete Confederation

British Nuclear Group (BNG)

Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE)

Swyddfa'r Cabinet (CO)

CELUFORM

Chartered Institute of Building (CIOB)

Commission for Architecture and the Built Environment (CABE)

Construction Confederation (CC)

Construction Industry Council (CIC)

Construction Industry Research & Information Association (CIRIA)

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

Construction Products Association (CPA)

Countryside Agency

Defence Estates (MOD)

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG)

Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

Adran Addysg a Sgiliau (DfES)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)

Adran Masnach a Diwydiant (DTI)

East Midlands Development Agency (EMDA)

English Partnerships (EP)

English Nature

Asiantaeth yr Amgylchedd (EA)

Federation of Environmental Trade Associations (FETA)

Fulcrum Consulting

Future Foundations

Glass & Glazing Federation

Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE)

Asiantaeth Priffyrdd (Adran Trafnidiaeth)

Horticultural Trade Association (HTA)

Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE)

Sefydliad y Peirianwyr Adeiladu (ISE)

Kingspan Insulation

Landscape Institute

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)

Ystadau'r GIG

Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC)

Quarry Products Association (QPA)

RENEW

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)

Y Gwasanaeth Datblygu Gwledig

Cyngor Dinas Sheffield

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (SDC)

Y Fforwm Cynaladwyedd

Sustainability South West

Y Trysorlys (HMT)

Thames Water

Skanska

Gwasanaeth Achredu'r DU (UKAS)

Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI)

WRAP (Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

World Wide Fund (WWF)

Carai'r DTI ddiolch i'r sefydliadau canlynol am gael defnyddio eu ffotograffau yn y ddogfen hon:

Nigel Young/Foster and Partners.

Mandy Reynolds /
Feilden Clegg Bradley Architects.

CABE (Y Comisiwn dros Bensaenïaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig).

Cyhoeddwyd gyntaf Hydref 2006. Adran Masnach a Diwydiant.. www.dti.gov.uk
© Hawlfraint y Goron. URN 06/1920 (WELSH)